Llywodraeth Cymru

# Astudiaeth Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig y FfDC

## Adroddiad SWOT Gwledig

Cyhoeddi | 13 Mawrth 2019

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno ac nid ymgymerir â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif gwaith 264350-00

**Ove Arup & Partners Ltd**
4 Stryd Pierhead
Capital Waterside
Caerdydd CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
www.arup.com

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARUP

# Cynnwys

| | | | Tudalen |
|---|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | | **1** |
| | 1.1 | Cyd-destun yr Astudiaeth | 1 |
| | 1.2 | Ymagwedd | 2 |
| | 1.3 | Yr Adroddiad Hwn | 4 |
| **2** | **Ymagwedd at SWOT** | | **5** |
| | 2.1 | Trosolwg | 5 |
| | 2.2 | Gwirio Data | 7 |
| | 2.3 | Dulliau gweithio | 7 |
| **3** | **Canlyniadau SWOT** | | **9** |
| **4** | **Rôl y FfDC** | | **18** |
| | 4.1 | Ymagwedd | 18 |
| | 4.2 | Cydberthynasau | 19 |
| **5** | **Crynodeb** | | **30** |
| | 5.1 | Beth allai'r FfDC ei nodi | 31 |
| | 5.2 | Pa faterion gwledig ac ardaloedd gofodol ddylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt | 32 |
| | 5.3 | Sut ddylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi gwledig | 34 |

## Ffigurau

Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC
Ffigur 2 Llinell amser y FfDC

## Atodiadau

**Atodiad A**


Canlyniadau SWOT

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun yr Astudiaeth

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn haf 2018[1], mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n datblygu'r FfDC Drafft a bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Fel yr amlinellwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru fel y dangosir yn Ffigur 1.





Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

[1] https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-y-prif-faterion-opsiynau-ar-opsiwn-a-ffefrir

Mae hyn yn adlewyrchu’r rhanbarthau a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi. Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi’u penodi ar gyfer pob rhanbarth ac maent wedi dechrau ar waith i ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella gweithio a chyflawni’n rhanbarthol. Mae’r Ddeddf Cynllunio yn hwyluso’r ymagwedd hon, ac yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn rhanbarthol.

O safbwynt rhanbarthol, mae rôl y FfDC yn cynnwys cefnogi cyflawni polisïau rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chynllunio / cydweithredu strategol gwell rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru (ACLlau).

Dangosir y rhaglen ar gyfer y FfDC yn Ffigur 2 isod, gydag ymgynghoriad ar y FfDC Drafft wedi’i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf i Fedi 2019, ac ystyriaeth gan y Cynulliad o’r Drafft rhwng mis Ebrill a Mehefin 2020.




Ffigur 2  Llinell amser y FfDC

## 1.2 Ymagwedd

Yr amcanion ar gyfer yr Astudiaeth Ymchwil Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig hon yw:

a) Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob rhanbarth y FfDC sy’n cefnogi datblygu polisïau’r FfDC a defnyddio hyn, i nodi’r materion a’r ardaloedd gofodol y dylai polisïau’r FfDC ganolbwyntio arnynt;

b) Nodi ardaloedd gwledig cyffredinol a datblygu sylfaen dystiolaeth sy’n cefnogi datblygu polisïau’r FfDC a defnyddio hyn, i nodi’r materion a’r ardaloedd gofodol y dylai polisïau’r FfDC ganolbwyntio arnynt; a

c) Chynnwys rhanddeiliaid yn a a b.

Er mwyn helpu cyflawni amcanion yr astudiaeth, cynhyrchodd Ove Arup & Partners (Arup), a gomisiynwyd i gynnal yr Astudiaeth hon, gyfres o adroddiadau sy’n mynd i’r afael â’r gofynion ar gyfer yr astudiaeth

Crynhoir y rhain yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1 Ymagwedd ac Adroddiadau'r Astudiaeth

| Allbwn | Adroddiadau | Cynnwys |
|---|---|---|
| **Trosolwg o'r Astudiaeth** | 1. Trosolwg o'r Astudiaeth | a) Cyd-destun y FfDC, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, cyfraniad Arup |
| **Adroddiad Data a Diffiniadau** | 2. Adroddiad Data a Diffiniadau | b) Cyflwyniad, gan gynnwys y cyd-destun, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, a'r strwythur<br>c) Casglu data, gan gynnwys ymagwedd, dull, cydweithio, canfyddiadau, adborth gan randdeiliaid, sut y defnyddiwyd data yn yr ymchwil gyda thablau a mapiau<br>ch) Diffinio 'Mawr' – gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, safleoedd manwerthu/masnachol, gorsafoedd cynhyrchu a chynlluniau trafnidiaeth<br>d) Diffinio a mapio aneddiadau allweddol<br>dd) Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr<br>e) Diffinio Ardaloedd Gwledig<br>f) Ystyried y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>ff) Crynodeb o'r Astudiaeth |
| **Adroddiadau Gweithdy** | 3. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Gogledd Cymru<br>4. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Canolbarth a De-orllewin Cymru<br>5. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – De-ddwyrain Cymru<br>6. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Gogledd Cymru<br>7. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Canolbarth a De-orllewin Cymru<br>8. Adroddiad Gweithdy Gwledig – De-ddwyrain Cymru | g) Yr ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid<br>ng) Trefniadau a mynychwyr y gweithdai<br>h) Canlyniadau gweithgareddau<br>i) Crynodeb o'r adborth gan randdeiliaid |
| **Adroddiadau SWOT[2]** | 9. Adroddiad SWOT Rhanbarthol<br>10. Adroddiad SWOT Gwledig | l) Yr ymagwedd at SWOT<br>ll) Adborth gan randdeiliaid<br>m) Dilysu data<br>n) Dadansoddiad SWOT<br>o) Rôl y FfDC wrth gefnogi a mynd i'r afael â SWOT, gan ystyried |

[2] Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT)

| | |
|---|---|
| | cydberthnasoedd a ffyrdd o weithio<br>p) Crynodeb o'r hyn y dylai'r FfDC ei wneud i gefnogi / mynd i'r afael â SWOT mewn rhanbarthau ac ardaloedd gwledig |

Fel cyfres o ddogfennau, dylid darllen yr Adroddiad Data a Diffiniadau ochr yn ochr â'r Adroddiadau Gweithdai ac Adroddiadau SWOT cysylltiedig er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau a chanfyddiadau'r ymchwil.

Mae'r holl allbynnau sy'n cynnwys y gyfres o adroddiadau ar gyfer yr astudiaeth yn darparu cyd-destun, diben a chroesgyfeiriad at ei gilydd, fel bo'n briodol.

Yn benodol, mae'r Adroddiad Data a Diffiniadau yn esbonio'r ymagwedd at yr astudiaeth ac adroddiadau yn glir, gan roi trosolwg o'r allbynnau gyda'i gilydd fel bo'r gofyn.

Cyhoeddwyd adroddiadau'r astudiaeth ar wefan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar wahân ac ochr yn ochr â'i gilydd[3].

## 1.3 Yr Adroddiad hwn

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu data, helpodd yr astudiaeth i sefydlu sylfaen dystiolaeth o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) o fewn pob rhanbarth (ac sy'n gyffredin i'r rhanbarthau hynny), yn ogystal ag ardaloedd gwledig.

Mae dau Adroddiad SWOT ar wahân wedi'u paratoi, fel a ganlyn:

1. Adroddiad SWOT Rhanbarthol; ac
2. Adroddiad SWOT Gwledig.

Mae'r Adroddiad SWOT Gwledig hwn yn amlinellu canlyniadau perthnasol ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwirio data ac yn cyflwyno'r SWOT a'r dadansoddiad mewn perthynas â meysydd ymyrraeth polisi priodol a graddfeydd gofodol (e.e. cynllunio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol neu gymunedol) gan ganolbwyntio ar ardaloedd gwledig. Mae'n dod ag ystod o ddata a gwybodaeth ynghyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth yn gysylltiedig â materion cynllunio gwledig, gan gyflwyno hyn ar ffurf tablau ac yn ofodol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried beth all y FfDC ei wneud i gefnogi a mynd i'r afael â'r SWOT sy'n berthnasol i ardaloedd gwledig. Yn bwysig, yn ogystal â chefnogi datblygu'r FfDC Drafft, bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio hefyd i gefnogi datblygu CDSau, CDLlau a CDLlau ar y cyd.

Cyflwynir yr Adroddiad SWOT Gwledig hwn yn yr adrannau canlynol:

[3] https://gweddill.gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy

- Mae Rhan 2 yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r trafodaethau SWOT ar draws tri Rhanbarth y FfDC;
- Mae Rhan 3 yn rhoi dadansoddiad SWOT ac yn ystyried materion sy'n berthnasol i'r FfDC sy'n datblygu;
- Mae Rhan 4 yn darparu argymhellion ar gyfer y FfDC yng ngolau'r dadansoddiad SWOT.

Mae Atodiad A yn cyflwyno tabl estynedig o'r materion SWOT a godwyd mewn trafodaethau gweithdai, i gynnwys y rheiny yr ystyrir eu bod y tu allan i gylch gwaith y FfDC.

# 2 Ymagwedd at SWOT

## 2.1 Trosolwg

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad yn ystyried canlyniadau'r gweithdai rhanddeiliaid (gweler yr Adroddiad Gweithdai i gael y canlyniadau llawn), ac mae'n nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar gyfer yr ardaloedd gwledig yn nhri Rhanbarth Cymru.

Mae Rhan 3 yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r SWOTau Gwledig ac yn cynnwys ystod o faterion sy'n rhychwantu pob graddfa a maes polisi.

Fel y mynnir gan y comisiwn, mae'r materion hyn wedi'u didoli er mwyn darparu ffocws ar gyfer y FfDC, ac mae'r meysydd polisi hynny yr ystyrir eu bod yn briodol i'w hystyried o fewn y FfDC wedi'u nodi felly yn y canlyniadau SWOT isod. Mae'r meini prawf sydd wedi llywio'r broses ddidoli hon yn cynnwys:

a) P'un a yw'r mater / maes polisi yn ystyriaeth gynllunio;

b) P'un a oes ymyrraeth cynllunio gofodol / polisi (e.e. nad yw'n fater o gyllido / hyfywedd ariannol yn unig);

c) P'un ai ar y raddfa ranbarthol / genedlaethol yr ystyrir y mater / maes polisi orau (gan ystyried hefyd canlyniadau cyfraniadau'r gweithdai rhanddeiliaid ar y testun hwn); a

ch) Ph'un a oes menter neu broses yn bodoli'n barod a fyddai'n mynd i'r afael â'r mater (e.e. rhwymedigaethau cynllunio).

Lle mae mater yn fwy o fater strategol yn hytrach na phwynt â ffocws gwledig, mae hyn wedi'i ystyried fel rhan o'r Adroddiad SWOT Rhanbarthol ar wahân, y dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Er mwyn darparu dull cyson o ddosbarthu, mae Cryfderau a Gwendidau yn gymwys i'r sefyllfa gyfredol (waelodlin), tra bod Cyfleoedd a Bygythiadau yn gymwys i safbwyntiau'r dyfodol.

Ar gyfer pob un o’r testunau yr ystyrir eu bod yn gryfderau neu’n wendidau (h.y. materion cyfredol), gwnaed sylwadau o ran ble yr eir i’r afael â chryfderau neu wendidau, neu eu cefnogi neu gyflawni y tu allan i’r cylch gwaith cynllunio.

Er mwyn osgoi dyblygu diangen ac o ystyried persbectif cyfleoedd a bygythiadau yn y dyfodol, ni ystyrir bod sylwebaeth debyg yn berthnasol ac felly nid yw wedi’i darparu.

## 2.2 Gwirio Data

Yn ychwanegol at y dadansoddiad SWOT a luniwyd drwy'r digwyddiadau gweithdai, mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried hefyd sut mae'r dadansoddiad hwn yn cymharu â'r data a gasglwyd fel rhan o'r comisiwn ehangach[4].

Mae'r sylwebaeth yn y tablau yn Rhan 3 yn nodi felly ble mae data yn gwrthdaro â, neu'n ategu'r tueddiadau / barnau sy'n dod i'r amlwg o'r SWOT. Nid yw hyn yn benodol nac yn fanwl, ond gellir gweld y data a gasglwyd yn Adroddiad yr Astudiaeth.

Lle nad yw cryfderau, gwendidau, cyfleoedd neu fygythiadau sy'n gysylltiedig â thestunau penodol wedi'u codi'n benodol gan randdeiliaid mewn un neu fwy o'r tri rhanbarth, ond lle mae data i'w gael i helpu egluro safbwynt, mae sylw wedi'i ddarparu.

## 2.3 Dulliau gweithio

Un pwynt allweddol a godwyd yn ystod trafodaethau'r rhanddeiliaid oedd yr angen i'r FfDC adlewyrchu ac ysgogi'r dulliau gweithio a eiriolwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae materion allweddol ar gyfer y FfDC i'w hystyried yn cynnwys:

**Hirdymor**

Dylai'r FfDC gyflwyno gweledigaeth ar gyfer ardaloedd gwledig yng Nghymru, gan feddwl yn yr hirdymor. Mae angen i flaenoriaethau ar gyfer twf, buddsoddi a gwneud penderfyniadau strategol mewn perthynas â diwydiannau gwledig, sectorau cysylltiedig a newidiadau yn y dyfodol (e.e. arallgyfeirio economïau gwledig ac amaethyddiaeth) gael eu hamlinellu'n glir.

Dylai'r FfDC gyfleu sut fydd ymyriadau polisi yn effeithio ar Gymru a'i hardaloedd gwledig yn y pen draw. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion a heriau presennol mewn ffordd sy'n diogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor.

**Atal**

Dylai'r FfDC ddarparu cyfeiriad clir o ran yr ymyriadau polisi sydd eu hangen i atal problemau cyfredol a'r rheiny a ragwelir yn y dyfodol rhag digwydd neu waethygu.

Er enghraifft, dylai'r FfDC fod yn glir ynghylch y cyfeiriad teithio ar gyfer llunio polisi mewn perthynas â nodi ag ardaloedd strategol ar gyfer datblygu'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy, yn gysylltiedig â chynllunio gofodol a datblygu polisi mewn perthynas â themâu cysylltiedig, yn cynnwys trafnidiaeth a datgarboneiddio.

---

[4] Nid yw data y tu hwnt i gwmpas y comisiwn wedi'i gasglu i lywio'r broses wirio hon.

**Cynnwys**

Dylai'r FfDC annog cyfranogiad gan randdeiliaid yn gynnar yn y broses datblygu polisi a phrosiectau, er mwyn helpu sicrhau bod y system gynllunio yn adlewyrchu anghenion (gwahanol weithiau) y boblogaeth ledled Cymru, ei rhanbarthau a'i chymunedau gwledig.

**Cydweithio**

Dylai'r FfDC annog cydweithio rhwng rhanddeiliaid allweddol (y sector preifat a chyhoeddus), y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chyrff cyflawni yn gynnar er mwyn helpu cyflawni amcanion polisi tymor hir Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

Mae hyn yn bwysig i helpu mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau ac anghenion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, fel cyllido, hyfywedd a'r gallu i gyflawni.

Bydd hyn yn cefnogi'r gallu hefyd i greu arloesedd a rhannu arfer gorau ar draws sectorau (e.e. modelau cyllido a chyflawni).

**Integreiddio**

Dylai'r FfDC wneud yn siŵr bod meysydd polisi'n cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, gan gydnabod pwysigrwydd gweithio traws-sector a natur gydberthynol cynllunio.

# 3 Canlyniadau SWOT

Mae'r rhan hon yn amlinellu canlyniadau'r SWOT gwledig.

### 3.1.1 Summary of key issues

Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r materion gwledig allweddol a godwyd sy'n berthnasol i bob un o dri rhanbarth y FfDC, gan gynnwys materion a godwyd yng nghyd-destun trafodaethau rhanddeiliaid.

Mae'r Adroddiadau Gweithdai yn rhoi adroddiad llawn am adborth rhanddeiliaid o'r digwyddiadau a gynhaliwyd ym mhob rhanbarth.

Caiff dadansoddiad o faterion gwledig sy'n benodol i ranbarthau Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru eu cynnwys felly yn yr Adroddiadau Gweithdy Gwledig priodol ar gyfer pob rhanbarth. Mae Adroddiad yr Astudiaeth – Data a Diffiniadau yn ystyried yr holl ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed fel rhan o'r ymchwil, yn ogystal â data a gasglwyd a'r gwaith cysylltiedig o'i ddadansoddi.

Er y gallai'r materion allweddol hyn, mewn rhai achosion, rychwantu categorïau SWOT (h.y. gellid gweld cyfle fel bygythiad hefyd), maent wedi'u dosbarthu fel cryfder, gwendid, cyfle neu fygythiad at ddibenion eglurder cyflwyno.

Tabl 2 Crynodeb o'r Materion Allweddol

| **Cryfderau** | |
|---|---|
| • Gwydnwch cymunedol / cymunedau gwledig yn ymateb ac yn rhagweithiol.<br>• Treftadaeth ddiwylliannol<br>• Ffermwyr ifanc / grwpiau tebyg<br>• Y Gymraeg / diwylliant Cymru<br>• Defnydd / rheolaeth gynaliadwy o adnoddau<br>• Mynediad i'r amgylchedd naturiol<br>• Twristiaeth<br>• Amgylchedd morol / arfordirol<br>• Porthladdoedd<br>• Amaethyddiaeth a gefnogir gan gymunedau<br>• BBaChau digidol | • Seilwaith digidol<br>• Amaethyddiaeth<br>• Sgiliau artisan<br>• Diwydiant ffilm a theledu<br>• Incwm o dwristiaeth werdd<br>• Topograffeg / tirwedd<br>• Ynni dŵr / llanw<br>• Ymddeoliadau cynnar / ased i'r gymuned<br>• Ffordd o fyw / lles<br>• Apêl ryngwladol<br>• Ymdeimlad o gymuned<br>• Aberhonddu fel ardal twf<br>• Prifysgolion<br>• Ardaloedd gwledig wedi'u cysylltu'n dda / hygyrch<br>• Agosrwydd at ardaloedd poblog |

## Gwendidau

- Tai wedi'u hynysu oddi wrth gyfleusterau
- Darpariaeth tai ddim yn bodloni'r angen
- Diffyg tai fforddiadwy / mynediad i dai fforddiadwy
- Dibynnu ar ychydig o adeiladwyr tai cenedlaethol
- Canolfannau cymudwyr bellach yn gymunedau
- Buddion twristiaeth yn erbyn effeithiau
- Goruchafiaeth / amlygrwydd twristiaeth
- Twristiaeth yn canolbwyntio ar deithio mewn ceir
- Gorddibyniaeth ar y car
- Pellter i'r gwaith
- Cyfleoedd cyflogaeth
- Cyflogaeth â thal isel
- Y Gymraeg ddim yn cael eu gwarchod yn ddigonol
- Diffyg seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig
- Cysylltedd grid
- Diboblogi – yn enwedig pobl ifanc
- Hyfywedd tir
- Rhentu / prynu tŷ
- Trafnidiaeth yn ddrud
- Angen teithio pellter hir
- Seilwaith rheilffordd / llwybro
- Pasys bws yn dod i ben ar y ffin
- Mewnfudo / prynu cartrefi / ail gartrefi
- Allfudo – oedran gweithio / pobl ifanc
- Seilwaith rheilffordd
- Grymoedd y farchnad yn methu
- Amaethyddiaeth fawr
- Amaethyddiaeth heb fod yn llafurddwys mwyach
- Ffermydd mawr yn llyncu cymorth ariannol
- Adeiladau rhestredig yn ddrud i'w rhedeg
- Rheoliadau tanciau septig
- Cynllunio yn canolbwyntio llai ar y gymuned
- Natur dymhorol – twristiaeth ac amaethyddiaeth
- Economi yn canolbwyntio ar amaethyddiaeth a diwydiant bach
- Gofal iechyd
- Iechyd meddwl / ynysu cymdeithasol
- Patrwm teithio i'r ysgol – effaith ar iechyd
- Màs critigol i gynnal hyfywedd aneddiadau
- Màs tir mawr
- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Gwerthoedd tir
- Prisiau tai / eiddo yn codi
- Ansicrwydd ynghylch dyfodol ffermio a'r effaith ar reoli tir
- Llygredd dŵr
- Cymunedau teithwyr mewn ardaloedd gwledig

## Cyfleoedd

- Hyrwyddwyr / swyddogion cymuned
- Parhau i warchod cymunedau amaethyddol
- Adeiladwyr tai lleol / hunan-adeiladu
- Mwy o fathau o dai fforddiadwy
- Gwasanaethau ac amwynderau yn gysylltiedig â lles
- Trafnidiaeth ar gyfer teithio pellter hir / Parcio a theithio
- Seilwaith gwefrio cerbydau trydan
- Cynhyrchu ynni datganoledig / ynni cymunedol
- Ynni adnewyddadwy ar y môr
- Rheoli dŵr ar lefel strategol
- Rheolaeth arch ffermydd
- Bwyd – ffynonellau a dosbarthu
- Diwydiant adeiladu
- Awtomeiddio ac uwchsgilio
- Economi gylchol gwastraff
- Sgiliau / addysg mewn crefftau traddodiadol
- Cartrefi cynaliadwy trwy ddatblygu a ganiateir
- Cyflenwadau dŵr preifat
- SDCau
- Ailddefnyddio adeiladau presennol

## Cyfleoedd

- Cydbwyso ynni adnewyddadwy yn erbyn y dirwedd
- Digwyddiad mawr i arddangos rhanbarth
- Cydweithrediaeth dai
- Cynllunio fel galluogwr iaith
- Angen canolbwyntio ar leoedd nid ‘gwledig’
- Cynllunio lleoedd i gynnal cymunedau
- Polisi ar gyfer ardaloedd Cymraeg eu hiaith
- Cyfle’r FfDC i fuddsoddi
- Twristiaeth werdd / arallgyfeirio’r cynnig
- Treth twristiaeth
- Swyddi gwledig
- Gyrfaoedd / addysg a chymwysterau broceru
- Adolygiad tir ar ôl Brexit
- Ynys ynni
- Morgloddiau i amddiffyn seilwaith critigol
- Pysgota a defnydd yng Nghymru
- Cymorth ar gyfer ailddefnyddio adeiladau rhestredig
- Fframwaith polisi ar gyfer bywyd gwledig
- FfDC yn cyfleu cyfleoedd amgylcheddol
- BBaChau yn hyrwyddo swyddi o ansawdd uchel
- Cefn gwlad yn erbyn yr ucheldir
- Arloesi cymdeithasol / entrepreneuriaeth
- Adnodd cymuned sydd wedi ymddeol yn gynnar
- Gwella’r digidol (5G)
- Lleoliad gwasanaethau dyfodolaidd
- Gweithio o gartref
- Moderneiddio ysgolion
- Bargen twf
- Canol trefi manwerthu/masnachol
- Prifysgolion rhanbarthol
- Cronfeydd dŵr fel atyniadau
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

## Bygythiadau

- Parodrwydd cymunedau / amser
- Ardaloedd gwledig yn troi yn bentrefi cymudo
- Bygythiad i iaith a diwylliant (yn sgil twf)
- Diffyg gwasanaethau / tai – allfudo
- Buddsoddi mewn trafnidiaeth
- Cyfyngiadau’r rhwydwaith trydan (e.e. mwy o alw gan gerbydau trydan) a chyllido
- Prisiau tanwydd ac effaith ar y gymuned wledig
- Poblogaeth sy’n heneiddio – ynysu
- Dibyniaeth ar y car
- Gwahaniaethau rhanbarthol
- Sgiliau
- Cadw pobl / pobl ifanc yn allfudo
- Cwotâu pysgota
- Y berthynas rhwng y FfDC a rheoli tir ar ôl Brexit
- Mwy o gyfyngiadau i fynd i’r afael â nhw wrth ddatblygu mewn ardaloedd gwledig – rhwystr
- Bancio tir (tirfeddianwyr ddim yn dod â safleoedd ar gyfer datblygu ymlaen)
- Cadw sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd
- Mae golwg eidylaidd / gor-syml o ardaloedd gwledig yn rhwystr rhag datblygu
- Gofal cymdeithasol i’r henoed
- Mynediad 16+ i ysgolion
- Brexit (gan gynnwys dylanwad ar borthladdoedd Iwerddon a chysylltiad ag Ewrop)
- Angen am warchodaeth – gwelir fel cyfleoedd datblygiad mewnlenwi
- Cymunedau sy’n ddisymud / yn dal yn y gorffennol
- Amaethyddiaeth a pherthynas gyda Brexit
- Her ariannu seilwaith
- Symud gwasanaethau / poblogaeth i Dde-ddwyrain Cymru
- Dyheadau ar gyfer plant mewn ardaloedd gwledig
- Dibynadwyedd rhwydweithiau digidol
- Gwarchod ardaloedd annynodedig
- Llygredd aer / effaith carbon yn sgil ffermio

| | |
|---|---|
| • Ansawdd dŵr / yr amgylchedd a dwysáu ffermio<br>• Toriadau mewn cyllid yn rhwystr rhag ymyrryd<br>• Perygl llifogydd<br>• Cyfleoedd cyflogaeth a chydraddoldeb | • Colli ffermio defaid / effaith ar lystyfiant yr ucheldir<br>• Ardaloedd gwledig yn cael eu hanghofio / gwthio i'r cyrion |

### 3.1.2 Materion SWOT a'r FfDC

Mae'r materion allweddol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i rôl y FfDC wedi'u hamlinellu yn Nhabl 3 i Dabl 6 isod. Mae pob mater yn cyfeirio at ranbarth y FfDC y'i codwyd ynddo, ochr yn ochr â ble mae'r data a gasglwyd yn ategu neu'n gwrthdaro â'r mater penodol. Gwneir sylw cryno hefyd ynglŷn â'r modd y dylid mynd i'r afael â'r mater a/neu sut ddylid ei gyflawni y tu allan i gylch gwaith cynllunio gofodol.

Ceir crynodeb estynedig a dadansoddiad dyfnach o'r materion hyn mewn perthynas â rôl y FfDC yn Adran 3.2; mae hyn yn cynnwys manylion cynnwys y raddfa ofodol, ffocws polisi, gofynion seilwaith ar gyfer pob mater a godwyd.

Mae Atodiad A yn cyflwyno tabl estynedig o'r materion SWOT a godwyd yn nhrafodaethau'r gweithdai, yn cynnwys y rheiny yr ystyrir eu bod y tu allan i gylch gwaith y FfDC.

Tabl 3 Materion SWOT a'r FfDC - Cryfderau

| Cryfder | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asedau treftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd gwledig | | Oes | Oes | Mae data'n dangos bod nifer sylweddol o asedau treftadaeth dynodedig yng Ngogledd Cymru hefyd. | **Oes** | Gwarchod a hyrwyddo, rheoli adnoddau a chynnal a chadw. |
| Ardaloedd gwledig yn bwysig i'r Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru | Oes | Oes | Oes | Mae data'n dangos bod y Gymraeg yn fwyaf amlwg yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | **Oes** | Polisi a rhaglenni'r Llywodraeth (e.e. targedau'r Gymraeg a mentrau). |
| Defnydd a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol | Oes | Oes | | Mae data'n awgrymu bod yr amgylchedd naturiol yn ased cryf i'r holl ranbarthau. | **Oes** | Cynnal a chadw a rheoli. |
| Mynediad i'r amgylchedd naturiol / mannau gwyrdd | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cynnal a chadw a rheoli. |
| Twristiaeth | | Oes | | Mae data'n dangos bod twristiaeth yn sector pwysig hefyd yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru | **Oes** | Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol. |
| Yr amgylchedd morol / ardaloedd arfordirol | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cynlluniau rheoli a chadwraeth. |
| Porthladdoedd (e.e. Caergybi) | Oes | | | Mae data'n dangos bod seilwaith porthladdoedd pwysig ym mhob rhanbarth | **Oes** | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. crefft a sgiliau). |
| Seilwaith digidol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. band eang a sgiliau). |
| Amaethyddiaeth | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cyllid (e.e. UE), rheoli tir a rhaglenni penodol i'r sector. |
| Aberhonddu fel ardal twf | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Argaeledd a hyfywedd tir, grymoedd y farchnad. |
| Ardaloedd gwledig wedi'u cysylltu'n dda ac yn hygyrch (drwy'r rhwydwaith ffyrdd) | | | Oes | Mae data'n dangos bod Cymru wedi'i chysylltu orau gan ffyrdd. | **Oes** | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy) a gweithredu / cynnal a chadw. |

Tabl 4 Materion SWOT a'r FfDC - Gwendidau

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth tai ddim yn bodloni anghenion y gymuned – amcangyfrifon ddim yn gywir | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Polisi'r Llywodraeth (e.e. targedau), argaeledd tir a diddordeb / grymoedd y farchnad. |
| Gorddibyniaeth ar y car | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy) a chyllid mewn moddau amgen |
| Cyfleoedd cyflogaeth | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cymhellion ariannol ac ysgogwyr y farchnad, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau). |
| Y Gymraeg ddim yn cael ei gwarchod yn ddigonol | Oes | | | Mae data'n dangos bod y Gymraeg yn fwyaf amlwg yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | **Oes** | Polisi a rhaglenni'r Llywodraeth (e.e. targedau'r Gymraeg a mentrau). |
| Diffyg seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Grymoedd y farchnad a diffyg strategaeth gan y llywodraeth ar ddarparu seilwaith. |
| Cysylltedd grid | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Prosesau'r farchnad (e.e. system yn cael ei harwain gan y galw) ac oedran seilwaith. |
| Seilwaith gwledig | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Polisi a chyllid y Llywodraeth. |

Tabl 5 Materion SWOT a'r FfDC - Cyfleoedd

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau ac amwynderau'n gysylltiedig â lles | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Seilwaith gwefrio cerbydau trydan | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Model cynhyrchu ynni datganoledig / cynlluniau ynni cymunedol | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Ynni adnewyddadwy ar y môr | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cydbwyso ynni adnewyddadwy yn erbyn y dirwedd | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Angen canolbwyntio ar leoedd nid 'gwledig' | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Polisi ar gyfer ardaloedd Cymraeg eu hiaith | Oes | | | Mae data'n dangos bod y Gymraeg yn fwyaf amlwg o hyd yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | **Oes** |
| Adolygiad o ddefnydd tir ar ôl Brexit | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Ynys ynni | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Morgloddiau i amddiffyn seilwaith critigol | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| (Dalgylchoedd) rheoli dŵr ar lefel strategol | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Dylai'r fframwaith polisi ddeall bywyd gwledig a bod yn hyblyg | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| FfDC yn cyfleu cyfleoedd amgylcheddol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella hygyrchedd digidol a 5G | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Bargen dwf | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Canol trefi manwerthu / masnachol | | Oes | | Mae data'n dangos bod canolfannau manwerthu a masnachol allweddol ledled Cymru. | **Oes** |
| Prifysgolion rhanbarthol / campysau lloeren | | Oes | | Mae data'n dangos bod seilwaith Prifysgolion yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru hefyd. | **Oes** |
| Cydbwyso datblygu cynaliadwy (economi, cymdeithasol, diwylliant a'r amgylchedd) gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

## Tabl 6 - Materion SWOT a'r FfDC Bygythiadau

| Bygythiadau | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwahaniaethau rhanbarthol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Y berthynas rhwng y FfDC a rheoli tir ar ôl Brexit | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Perygl llifogydd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cyfleoedd cyflogaeth a chydraddoldeb | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Brexit (gan gynnwys dylanwad ar borthladdoedd Iwerddon a chysylltiad ag Ewrop) | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Angen am warchodaeth – gwelir fel cyfleoedd datblygiad mewnlenwi | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Amaethyddiaeth a pherthynas gyda Brexit | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Gwarchod ardaloedd annynodedig | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Ardaloedd gwledig yn cael eu hanghofio / gwthio i'r cyrion | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

# 4 Rôl y FfDC

## 4.1 Ymagwedd

Mae llawer o faterion sy'n rhychwantu gwahanol feysydd polisi wedi'u dynodi naill ai fel cryfderau, gwendidau, cyfleoedd neu fygythiadau ar draws y tri rhanbarth yng Nghymru. Er mwyn helpu canolbwyntio ar yr hyn y gall y FfDC ei wneud i helpu mynd i'r afael â, cefnogi neu ystyried y materion hynny sy'n fwyaf perthnasol, mae grwpiau o faterion wedi'u grwpio fesul themâu.

Dadansoddir y themâu hynny yn Nhabl 7.

Yn gyntaf, caiff pob thema ei hystyried gyda chrynodeb o'i chryfderau, gwendidau, cyfleoedd neu fygythiadau ar draws y tri rhanbarth yng Nghymru.

Yna mae pob thema yn ystyried yr ardal ofodol / graddfa briodol, ffocws polisi, gofynion seilwaith a chysylltiadau â meysydd polisi / amcanion eraill

Mae'r dadansoddiad yn ystyried pob thema a beth allai'r FfDC ei wneud i gynyddu / hyrwyddo'i chryfderau a'i chyfleoedd, a lleihau / mynd i'r afael â'i gwendidau a'i bygythiadau.

Mae hyn wedi golygu distyllu barnau rhanddeiliaid a chymhwyso barn broffesiynol yr awduron o brofiad o systemau cynllunio Cymru a systemau cynllunio eraill.

Dylid cydnabod, er bod themâu a materion penodol wedi'u cael o adborth rhanddeiliaid sy'n berthnasol i ranbarthau penodol, gellir ystyried rhai o'r pwyntiau yn bwyntiau sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Amlinellir hynny fel rhan o'r argymhellion a wneir yn rhan 4 yr adroddiad hwn.

Fel y soniwyd eisoes, mae yna feysydd ehangach hefyd sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig ond nad ydynt o angenrheidrwydd yn themâu gwledig penodol (e.e. mwynau a gwastraff). Ystyrir y rhain fel rhan o'r 'Adroddiad SWOT Rhanbarthol', sy'n eistedd ochr yn ochr â'r 'Adroddiad SWOT Gwledig' hwn. Gallai darllenwyr ddymuno ystyried y ddau ochr yn ochr â'i gilydd er mwyn cael trosolwg cyflawn o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau yn yr ardaloedd gwledig a'r tri rhanbarth yng Nghymru.

Ar gyfer meysydd gwledig yn benodol, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn y canlyniadau SWOT yn dangos bod llawer o'r themâu'n ymwneud â materion y dylid mynd i'r afael â nhw / eu cyflawni y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio, ac felly maent y tu hwnt i'r cwmpas 'beth allai'r FfDC ei wneud'. Wedi dweud hynny, mae cyfleoedd clir o hyd i'r system gynllunio helpu cefnogi ardaloedd gwledig ledled Cymru, ac mae'r Rhan hon yn egluro sut.

Mae'n bwysig cydnabod fod y rhan hon yn adroddiad ffeithiol a chryno o'r dadansoddiad SWOT, ei ganlyniadau a barn Arup ar rôl y FfDC o ran cefnogi neu fynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd ledled Cymru ac ym mhob rhanbarth mewn perthynas ag ardaloedd gwledig, fel bo'n briodol.

## 4.2 Cydberthynasau

Fel yr amlinellwyd uchod, mae pob un o'r themâu yn ystyried cysylltiadau â meysydd polisi / amcanion eraill.

Mae'n amlwg fod llawer o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a godwyd gan randdeiliaid ac a nodwyd trwy gasglu a dadansoddi data – yn berthnasol i ardaloedd gwledig a'r rhanbarthau ehangach yng Nghymru. Mae hyn yn dangos mai cyfyngedig yw'r amrywio rhwng y materion a'r meysydd polisi y mae pobl yn ystyried eu bod yn bwysig ar lefel gyffredinol wrth gymharu â materion gwledig penodol.

Gellid egluro hyn yn rhannol drwy fod gan Gymru eangderau mawr o ardaloedd gwledig neu ymylol. Gellid egluro hyn yn rhannol hefyd gan randdeiliaid a oedd yn gysylltiedig â'r astudiaeth ddim yn ystyried bod y system gynllunio yn rhwystr penodol i ddatblygu yng Nghymru neu ei hardaloedd gwledig, ond bod ystod o faterion ehangach sy'n rhyngwynebu â chynllunio a datblygu nad eir i'r afael â nhw / eu cyflawni orau drwy'r system gynllunio. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y FfDC a'r system gynllunio yn parhau i gefnogi datblygu mewn ardaloedd gwledig, ac mae'n cydategu / galluogi cyfleoedd ymhellach ar gyfer deilliannau cadarnhaol mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol.

Dylai natur gydberthynol meysydd polisi cyffredinol a meysydd polisi mwy penodol i ardaloedd gwledig fod yn un ystyriaeth allweddol i'r FfDC a datblygu polisi mewn ardaloedd gwledig. Er mai cyfyngedig o bosibl yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r angen am bolisïau cynllunio penodol i ardaloedd gwledig, mae'n amlwg bod y capasiti a'r gallu gan y FfDC i gael effaith gadarnhaol mewn ardaloedd gwledig dwy ystod o gyfarwyddiadau a/neu ymyriadau. Er enghraifft, trwy ddiffinio ardaloedd gwledig a chefnogi arallgyfeirio tir amaethyddol yn yr ardaloedd hynny i fodloni anghenion cenedlaethau heddiw ac yfory, byddai'r FfDC:

a) Yn cefnogi arallgyfeirio'r economi wledig;

b) Yn helpu cefnogi cydlyniant cymunedol drwy atal colli'r gymuned ffermio n eu pobl ifanc / oedran gweithio o ardaloedd gwledig;

c) Yn amlinellu ac yn cydnabod elfen o newid gydag effeithiau amgylcheddol e.e. effeithiau ecolegol a/neu ar y dirwedd yn sgil datblygu;

ch) Yn ystyried yr angen am drafnidiaeth gysylltiedig, seilwaith digidol a chymunedol mewn ardaloedd gwledig i gefnogi arallgyfeirio tir amaethyddol; ac

d) Yn cyfarwyddo CDSau i fireinio ardaloedd addas ar gyfer newidiadau o ran defnyddio / datblygu.

Mae hyn yn dangos lle mae'n rhaid i gymorth polisi mewn un maes ystyried yr effeithiau polisi cydberthynol (e.e. effeithiau ar feysydd polisi eraill) yn ogystal â'r buddion a'r effeithiau ehangach (e.e. arallgyfeirio yn y sector amaethyddol ac effaith ar yr amgylchedd naturiol).

Mae Tabl 7 yn nodi ble ddylai'r FfDC ystyried yr ymyriadau a'r perthnasoedd posibl hyn lle bo'n briodol, fel yr angen am ardaloedd twf a'r angen i faterion tai ystyried trafnidiaeth, seilwaith digidol, cyflogaeth ac ardaloedd manwerthu / masnachol er mwyn helpu sicrhau bod datblygu polisi wedi'i integreiddio yn ei ymagwedd, er enghraifft, wrth ystyried twf, tai a chymunedau gwledig.

Tabl 7 Dadansoddiad a Chanlyniadau

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Twf / Tai** | Codwyd yr angen am dai newydd sy'n bodloni anghenion cymunedau gwledig, gan gynnwys mathau / deiliadaethau gwahanol, fel gwendid ac fel cyfle. Yn benodol, codwyd hwn fel mater yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru.<br>Codwyd yr angen am amcangyfrifon twf mwy cywir fel pryder hefyd ochr yn ochr ag argaeledd tir a'r gallu i ddarparu tir mewn ardaloedd gwledig.<br>Trafodwyd cyfle Bargeinion Twf a chanolfannau allweddol ar gyfer twf mewn ardaloedd gwledig (e.e. Aberhonddu). | Rhanbarthol – yn adlewyrchu'r marchnadoedd a'r gofynion gwahanol ar draws cymunedau. | Nodi ardaloedd ar gyfer twf (tai a gwasanaethau) mewn ardaloedd gwledig, gan ymateb i'r cyd-destun lleol.<br>Ystyried y ddarpariaeth gwasanaethau manwerthu / masnachol mewn ardaloedd gwledig. | Safleoedd / tir – sicrhau bod tir a seilwaith digonol a phriodol i hwyluso twf a darpariaeth tai. | Tai<br>Trafnidiaeth<br>Digidol<br>Cyflogaeth<br>Manwerthu / masnachol | Gallai'r FfDC gydnabod cyd-destun amrywiol ardaloedd gwledig ac ymateb drwy nodi ardaloedd twf gwledig ar draws y rhanbarthau er mwyn adlewyrchu'r anghenion rhanbarthol am dai.<br>Yn benodol, gallai ardaloedd twf cynaliadwy roi blaenoriaeth i ddatblygu lle maent wedi'u cysylltu'n dda / yn cael eu gwasanaethu gan, neu y byddant yn cael eu cefnogi gan fuddsoddiad/darpariaeth seilwaith wedi'i gynllunio.<br>Mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu'r polisi cynllunio priodol ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, gallai'r FfDC a/neu CDSau nodi ardaloedd neu safleoedd ar gyfer cymorth, datblygu / twf yn y dyfodol. Gallant ddymuno blaenoriaethu rhai mathau o dai mewn ardaloedd gwledig neu greu 'parthau' lefel uchel neu ddyraniadau lle mae cymunedau yn rhedeg ar draws ffiniau gweinyddol. |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twristiaeth** | Mae twristiaeth yn cael ei gydnabod yn gryfder yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru gyda chyfleoedd penodol mewn hyrwyddo'r cyfleoedd y mae'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd hanesyddol yn eu cynnig.<br>Mae data'n dangos hefyd fod twristiaeth yn sector pwysig yn Rhanbarthau eraill y FfDC.<br>Codwyd y ffocws ar deithio mewn car i hwyluso neu wasanaethu'r sector fel pryder / gwendid mewn ardaloedd gwledig. | Rhanbarthol – yn adlewyrchu'r cynnig gwahanol o ran twristiaeth ledled Cymru. | Hwyluso a chefnogi gweithgareddau twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, a sicrhau cydbwysedd rhwng y buddion economaidd ac effeithiau ar yr amgylchedd.<br>Cefnogi datblygiadau twristiaeth gyda chysylltedd trafnidiaeth cynaliadwy. | Trafnidiaeth<br>Llety | Trafnidiaeth – mynediad a chysylltedd<br>Seilwaith digidol - cysylltedd | Gallai'r FfDC gyfarwyddo CDSau i nodi ardaloedd twristiaeth bras i'w cefnogi. Ar gyfer Gogledd Cymru, gallai hyn ganolbwyntio ar asedau amgylcheddol naturiol ac, ynghyd â Chanolbarth a De-orllewin Cymru, bod yn fodd o gefnogi neu greu arallgyfeirio amaethyddol a/neu bontio gyda'r amcan cyffredinol o gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae De-ddwyrain Cymru yn debygol o gadw ei ffocws twristiaeth ar gyrchfannau presennol.<br>Ni ragwelir bod angen i safleoedd gael eu nodi o fewn y FfDC, ac mae PCC yn darparu'r polisi cynllunio priodol ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, gallai twristiaeth fod yn un sector o'r economi y gallai'r FfDC ddarparu arweiniad defnyddiol iddo ar lefel uchel.<br>Gallai'r FfDC a/neu CDSau nodi ardaloedd neu safleoedd ar gyfer cymorth, datblygu / twf yn y dyfodol. Gallant ddymuno blaenoriaethu rhai mathau o dwristiaeth mewn ardaloedd gwledig neu greu 'parthau' lefel uchel neu ddyraniadau lle mae buddiannau twristiaeth yn rhedeg ar draws ffiniau gweinyddol. Gallai hyn gynnwys ceisio 'lledaenu' neu fel arall bwysleisio buddion twristiaeth parciau cenedlaethol neu leiniau arfordirol. |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gymraeg** | Mae'r holl ranbarthau yn ystyried bod ardaloedd gwledig yn bwysig mewn perthynas â'r Gymraeg a diwylliant Cymru.<br>Yng Ngogledd Cymru, ystyriwyd nad yw'r Gymraeg yn cael ei gwarchod yn ddigonol ac y dylai fod polisïau penodol ar gyfer ardaloedd Cymraeg eu hiaith. | Cenedlaethol – yn gyson â gosod targedau ledled Cymru.<br>Rhanbarthol – gwerthfawrogi'r amrywio o ran defnyddio'r Gymraeg ledled Cymru. | Cefnogi ardaloedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at warchod a gwella'r Gymraeg a diwylliant Cymru. | Amherthnasol | Tai<br>Cyflogaeth / economi wledig<br>Amaethyddiaeth | Mae hwn yn faes polisi sy'n elfen o bob polisi'r llywodraeth. Mae rhan bwysig gan Gynllunio i'w chwarae hefyd.<br>Gallai'r FfDC nodi ardaloedd bras lle mae'r Gymraeg yn amlwg, er mwyn helpu hyrwyddo a gwarchod yr iaith / diwylliant wrth symud ymlaen. Byddai hyn yn rhoi 'bachyn' ar gyfer llunio polisïau CDS a CDLl.<br>Gan fod cyd-destun ag anghenion y Gymraeg a'r cymunedau sy'n ei choleddu yn amrywio o awdurdod i awdurdod (ac mewn rhai achosion, o anheddiad i anheddiad), mae haenau is maes llunio polisi mewn lle gwell i gydlynu ymdrechion.<br>Fel arall, nid yw'n thema cynllunio gofodol ac yn dod o dan PCC (dewisiadau strategol a gofodol, lleoedd actif a chymdeithasol, lleoedd unigryw a naturiol). Nid yw PCC yn 'dyrannu' *Galluogi'r Gymraeg i ffynnu* o fewn y nod llesiant 'Cynhyrchiol a Mentrus; efallai y gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r maes hwn yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru er mwyn archwilio creu ysgogiad economaidd mewn perthynas â'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ymylol. |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Seilwaith Digidol** | Mae cysylltedd digidol yn cael ei ystyried yn gryfder yng Ngogledd Cymru.<br>Ystyrir bod gwella hygyrchedd digidol a thechnoleg 5G yn gyfle, yn enwedig r gyfer Canolbarth, Gorllewin a De-ddwyrain Cymru – gan adlewyrchu o bosibl y cyfle ar y cyd yn yr ardaloedd hynny yn gysylltiedig â gweithio gartref a lleihau'r angen i deithio. | Cenedlaethol a rhanbarthol – yn adlewyrchu'r amrywiadau o ran mynediad a chysylltiadau o fewn y rhanbarthau, rhwng y rhanbarthau a thu hwnt. | Cyflwyno seilwaith a thechnolegau digidol fesul cam i gefnogi ardaloedd gwledig a chysylltu eu cymunedau a'u hardaloedd cyflogaeth yn well. | Band eang<br>Telathrebu | Tai<br>Cyflogaeth<br>Trafnidiaeth | Gallai'r FfDC a CDSau nodi ardaloedd lle ceir gwendid, angen a chyfle i gefnogi gwelliannau mewn cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwledig. Mae angen cydbwyso pennu meysydd blaenoriaeth ledled Cymru â chefnogi ardaloedd gwledig i helpu sicrhau bod cyfleoedd cyfartal yn cael eu darparu. Bydd nodi ardaloedd lle ceir cymunedau ynysig yn aml, er enghraifft, yn darparu ymagwedd wahanol i'r ymagwedd draddodiadol at flaenoriaethu darpariaeth (e.e. gan ddarparwyr cyfleustodau ar sail cyrraedd cwsmeriaid).<br>Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi prosiectau rhanbarthol allweddol ar sail fframwaith y FfDC, er mwyn helpu sicrhau y cynhelir sefyllfa amrywiol a chystadleuol rhwng ardaloedd gwledig a threfol, y tri rhanbarth ac o gymharu â'r DU - ac i sicrhau cydbwysedd rhwng (er enghraifft) poblogaeth a/neu dwf cyflogaeth a darpariaeth ynni.<br>Dylai'r FfDC ystyried lle mae prosiectau seilwaith eraill (e.e. ffyrdd neu linellau trydan) yn darparu cyfle hefyd i osod seilwaith cyfathrebu digidol wedi'i uwchraddio. |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Chyflogaeth** | Gallai cyfle'r Fargen Dwf yng Nghanolbarth Cymru helpu cyfrannu at yr economi wledig a chreu swyddi.<br>Ystyrir bod rôl / dyfodol Prifysgolion / Campysau lloeren rhanbarthol yn bwysig i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig.<br>Tra ystyrir bod porthladdoedd yn gryfder, gallai bygythiad Brexit a tharfu ar fynediad i farchnadoedd yn Ewrop ffafrio porthladdoedd Iwerddon.<br>Ystyrir bod twristiaeth yn sector allweddol ar gyfer cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. | Rhanbarthol - yn adlewyrchu'r mecanweithiau cymorth a ffocysau'r sector ar y lefel ranbarthol a chyfleoedd posibl mewn canolfannau rhanbarthol. | Cefnogi'r cyfle ar gyfer datblygu sgiliau, addysg a chyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. | Porthladdoedd<br>Cyfleusterau a gwasanaethau addysg<br>Llety / atyniadau twristiaeth | Trafnidiaeth a Phorthladdoedd<br>Bargen Dwf<br>Twristiaeth<br>Addysg | Gallai'r FfDC gyfarwyddo CDSau i nodi ardaloedd bras i'w cefnogi. Ar gyfer ardaloedd gwledig, gallai hyn ganolbwyntio ar asedau amgylcheddol naturiol a bod yn fodd o gefnogi / creu arallgyfeirio amaethyddol a/neu bontio gyda'r amcan cyffredinol o gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae Cymru yn debygol o gadw ei ffocws twristiaeth ar gyrchfannau presennol, ac er mwyn helpu mynd i'r afael â chyflogaeth dymhorol, gallai'r FfDC a CDSau geisio cryfhau cysylltiadau ffisegol rhwng cyfleusterau addysg, yn cynnwys prifysgolion, gan gydnabod eu cryfderau allweddol a'u cysylltiadau â meysydd cyflogaeth.<br>Mae gan Gynllunio y cyfle i ddylanwadu ar leoliad safleoedd cyflogaeth newydd ac annog adfywio. Felly, mae'n eistedd ochr yn ochr â ffocws ehangach y llywodraeth ar gyflogaeth. Gallai'r FfDC nodi safleoedd strategol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n bodoli'n barod neu rai'r dyfodol (mewn ymgais i roi eglurder a sicrwydd ynghylch (ailddefnyddio), yn ogystal ag amlinellu gwelliannau gofodol lefel uchel sydd eu hangen (fel gwelliannau i rwydweithiau neu seilwaith meddal) er mwyn annog twf a buddsoddiad. Yn eu tro, gallai Cynlluniau Datblygu Strategol hyrwyddo darparu'r safleoedd cenedlaethol hynny a hefyd sefydlu set is-genedlaethol o safleoedd blaenoriaeth a / neu sectorau allweddol neu gyfleoedd buddsoddi cysylltiedig (gan osgoi gwrthdaro pan y'i nodir). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cysylltedd / Hygyrchedd** | Roedd mynediad a chysylltedd â'r amgylchedd naturiol a mannau gwyrdd yn cael eu hystyried yn gryfder.<br>Cydnabyddir hefyd fod ardaloedd gwledig, yn gyffredinol, wedi'u cysylltu'n dda gan ffyrdd, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru.<br>Codwyd porthladdoedd fel cryfder allweddol hefyd o ran hygyrchedd / cysylltedd ehangach.<br>Fodd bynnag, cydnabuwyd fod trigolion ac ymwelwyr, mewn llawer o ardaloedd gwledig, yn gorddibynnu ar y car a bod diffyg seilwaith gwefrio cerbydau trydan.<br>Gwelir cerbydau trydan fel cyfle i gyfyngu ar effaith defnyddio ceir, ond mae'r seilwaith i alluogi hyn yn hollbwysig i lwyddiant. | Cenedlaethol a rhanbarthol – yn adlewyrchu'r cysylltiadau allweddol o fewn a rhwng rhanbarthau a thu hwnt. | Nodi a hwyluso cysylltiadau allweddol gan ddarparu hygyrchedd addas i gefnogi datblygu a symud pobl a nwyddau.<br>Yn benodol, gwelir seilwaith cerbydau trydan fel cyfle allweddol a bygythiad i ardaloedd gwledig. | Trafnidiaeth – sicrhau cysylltedd a hygyrchedd. | Tai<br>Cyflogaeth<br>Twristiaeth<br>Masnachol a manwerthu | Gallai'r FfDC nodi llwybrau allweddol a chynorthwyo cyflwyno seilwaith cerbydau trydan, gan sicrhau nad yw ardaloedd gwledig yn colli allan a bod buddsoddiad yn gyfartal.<br>Trafnidiaeth, a'r buddsoddi mewn seilwaith cysylltiedig, yw un o'r prif 'ysgogiadau' y gall y llywodraeth eu gweithredu i helpu dylanwadu ar leoedd. Mae'n rhaid i gynllunio arwain ac adweithio er mwyn hyrwyddo buddion a sicrhau cyfatebolrwydd fel rhan o weledigaeth a rennir.<br>Hefyd, gall y FfDC geisio cefnogi barn genedlaethol ar y cydbwysedd ymdrech rhwng cysylltedd ffisegol a rhithwir a blaenoriaethu angen a chyfle. Gall hyd yn oed ddatblygu parthau lefel uchel ar gyfer y cyfryw flaenoriaethau.<br>Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi llwybrau a phrosiectau rhanbarthol allweddol. Byddai'r rhain yn adlewyrchu unrhyw ffocws cylchfaol neu ofodol yn y FfDC. Mewn gwirionedd, gallai hyn fod yn gyfuniad o rymoedd o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny i geisio llywio'r anghenion craidd ar gyfer rhanbarthau, fel trafnidiaeth gyhoeddus (wledig) gynaliadwy a dichonadwy ar gyfer Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru, gan annog newid moddol, lleihau'r angen i deithio a chefnogi'r hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru 10. |
| **Ynni** | Mae defnyddio a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy (yn cynnwys ynni adnewyddadwy) yn cael ei weld fel cryfder ar draws pob rhanbarth. Yn benodol, | Cenedlaethol a rhanbarthol – er mwyn nodi cyfyngiadau allweddol mewn perthynas â | Cefnogi'r agenda datgarboneiddio a'r angen i ddarparu ffynonellau ynni i gefnogi datblygu | Cysylltiadau grid<br>Trafnidiaeth – sicrhau cysylltedd a hygyrchedd. | Carbon a newid hinsawdd<br>Trafnidiaeth | Soniodd rhanddeiliaid dro ar ôl tro am TAN8 (ynni adnewyddadwy, a nodi ardaloedd strategol ar gyfer ynni gwynt) fel enghraifft o'r modd y gall polisi cenedlaethol ddarparu sicrwydd gofodol gyda manylder ynglŷn â mathau o ynni. Dylai'r FfDC archwilio p'un a |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | codwyd yr Ynys Ynni fel cyfle i Ogledd Cymru.<br>Codwyd y cyfle ar gyfer systemau ynni datganoledig yng Ngogledd a Chanolbarth a De-orllewin Cymru.<br>Fodd bynnag, gwelwyd effaith ynni adnewyddadwy ar y dirwedd yn fygythiad.<br>Mae cysylltedd grid yn wendid, yn enwedig yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, ac mae'n cyfyngu ar y potensial i ddatblygu.<br>Codwyd ynni adnewyddadwy ar y môr yn benodol fel cyfle yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. | chapasiti'r Grid a chefnogi darparu seilwaith mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol.<br>Rhanbarthol a Lleol – er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer ymagwedd ddatganoledig at reoli ynni mewn ardaloedd gwledig. | a chymunedau / busnesau cynaliadwy. | Gwydnwch cymunedau. | | allai'r ymagwedd hon gael ei hehangu a ble gallai gefnogi ardaloedd gwledig, gan ystyried ardaloedd posibl ar gyfer arallgyfeirio / defnydd newydd o dir amaethyddol, neu ble gallai cynlluniau sy'n berchen i'r gymuned gefnogi bywyd mewn ardaloedd gwledig.<br>Gall datblygiadau ynni fod yn ddadleuol, yn debyg iawn i seilwaith neu ddatblygu yn gyffredinol, a gall y FfDC a'r CDS, gyda'i gilydd, ddarparu dadl genedlaethol ar 'beth sy'n mynd ble'. Wrth wneud hynny, bydd yn bwysig ystyried sut mae CDLlau a chymunedau yn ymgysylltu â'r broses hon.<br>Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi prosiectau rhanbarthol allweddol ar sail fframwaith y FfDC, er mwyn helpu sicrhau y cynhelir sefyllfa amrywiol a chystadleuol ac i sicrhau cydbwysedd rhwng (er enghraifft) twf mewn poblogaeth a/neu gyflogaeth a darpariaeth ynni.<br>Yn ogystal, dylai'r FfDC ddarparu safbwynt polisi ar gyfer lobïo gweithredwyr y rhwydwaith trydan (e.e. Grid Cenedlaethol / Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu) wrth gynllunio i fodloni galw'r dyfodol a helpu cwrdd â thargedau Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy fel enghraifft. |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amaethyddiaeth** | Mae amaethyddiaeth yn cael ei hystyried yn gryfder ar draws yr holl ranbarthau.<br>Codwyd dyfodol amaethyddiaeth mewn perthynas â Brexit fel bygythiad yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru, fodd bynnag, bydd hyn yn bwysig ar draws yr holl ranbarthau.<br>Yn benodol, mae rheolaeth tir sydd wedi digwydd trwy raglenni cyllid Ewropeaidd yn ansicr ar ôl Brexit. Gallai'r cytundeb effeithio hefyd ar fynediad i farchnadoedd / allforion a hyfywedd rhai mathau o amaethyddiaeth. | Rhanbarthol – yn adlewyrchu gwahanol ddiwydiannau amaethyddol, sgiliau, anghenion ac ansawdd tir / | Cefnogi'r sector amaethyddol ac arallgyfeirio, yn enwedig ar ôl Brexit. | Amherthnasol | Economi | Mae amaethyddiaeth yn sector allweddol i Gymru, ac mae'n cael ei hystyried yn gryfder ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r heriau a wynebir yn amrywio. Mae cynllunio yn darparu pwyntiau cymorth niferus ar gyfer amaethyddiaeth, a'r prif rai y cyfeiriwyd atynt gan randdeiliaid oedd yr ystod o hawliau datblygu a ganiateir a'r cydadwaith rhwng tir amaethyddol a'r gweithwyr sydd eu hangen i'w reoli a'i gefnogi.<br>Gallai'r FfDC nodi ble mae diwydiant amaethyddol yn gyffredin a lle mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector a / neu arallgyfeirio yn y sector. Gallai hyn gynnwys elfennau allweddol y sector amaethyddol sy'n fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan broses Brexit.<br>Gall y CDSau gymryd y meysydd eang hyn ac, fel rhan o'u proses casglu a dadansoddi tystiolaeth eu hunain, penderfynu pa gamau gweithredu rhanbarthol ac isranbarthol gall fod eu hangen. Bydd rhaid i'r CDSau wynebu rhai 'cwestiynau anodd' ynghylch twf economaidd am fod amaethyddiaeth yn gynyddol ddwys o ran tir ond yn llai dwys o ran llafur. |

| Themâu | Crynodeb | Ardal Ofodol / Graddfa | Ffocws Polisi | Seilwaith | Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill | Rôl y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd Morol ac Ardaloedd Arfordirol** | Gwelir yr amgylchedd morol ac ardaloedd arfordirol fel cryfder. Codwyd hyn yn benodol yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru.<br>Dylai rheoli dŵr a dalgylchoedd dŵr gael eu hystyried ar y lefel genedlaethol ochr yn ochr â phrosesau arfordirol. Mae hyn yn y cyd-destun o fynnu buddsoddiad i amddiffyn seilwaith critigol o ystyried y gwelir perygl llifogydd (mewndirol ac arfordirol) fel bygythiad. | Cenedlaethol a Rhanbarthol | Cydnabod pwysigrwydd amddiffyn yr amgylchedd morol ac arfordirol wrth sicrhau hefyd amddiffyn asedau allweddol rhag newid hinsawdd a pherygl llifogydd cysylltiedig. | Seilwaith amddiffyn rhag llifogydd | Cynllun Morol Cenedlaethol<br>Cynlluniau Rheoli Traethlin<br>Twristiaeth | Gallai'r FfDC nodi'r prif ardaloedd ac asedau sydd mewn perygl, ynghyd â chyfleoedd strategol i gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Morol a Chynlluniau Rheoli Traethlin ar y lefel Genedlaethol. Gallai'r FfDC fod yn gatalydd ar gyfer partneriaeth 'ei wneud unwaith, ei wneud yn dda' gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i adeiladu darlun cenedlaethol o wybodaeth amgylcheddol.<br>Fel hyn, gallai'r FfDC nodi ardaloedd gwarchodedig a gwerth uchel, gan ategu'r polisi cynllunio ar y lefel genedlaethol fel y cyfarwyddir gan Bolisi Cynllunio Cymru. Gallai hefyd nodi ardaloedd allweddol ar gyfer ynni morol a chynnwys ystyriaeth o'r cynlluniau hyn er mwyn lobïo darparwyr rhwydweithiau.<br>Gallai CDSau ystyried yr amgylchedd naturiol ar y raddfa ranbarthol a llunio darlun mwy 'cydgysylltiedig' rhwng yr amgylchedd naturiol, twf cynaliadwy, cyfleoedd economaidd (fel eco-dwristiaeth) a rôl yr amgylchedd naturiol mewn testunau iechyd a newid hinsawdd. |

# 5 Crynodeb

Mae dadansoddiad o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau dynodedig a ystyriwyd ledled Cymru yn helpu nodi beth allai'r FfDC ei wneud i warchod, hwyluso a gwella datblygu mewn ardaloedd gwledig.

Mae Tabl 2 yn amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid yn ystod digwyddiadau gweithdy ledled Cymru, ac mae Tabl 3, Tabl 4, Tabl 5 a Thabl 6 yn ystyried lle mae'r materion hynny'n berthnasol i bob rhanbarth, lle mae data a gasglwyd yn helpu gwirio barnau'r rhanddeiliaid, a ph'un a ellir cefnogi mater neu fynd i'r afael â mater drwy'r FfDC, neu a oes swyddogaeth i fynd i'r afael â mater neu'i gyflawni y tu allan i'r system gynllunio.

Mae Tabl 7 yn darparu dadansoddiad llawn o'r SWOT ac yn amlinellu barnau Arup ynglŷn â rôl y FfDC wrth ystyried adborth y rhanddeiliaid, yr ymarferiad gwirio data a'r dadansoddiad data.

Mae adrannau olaf yr adroddiad hwn isod yn helpu amlinellu ble a sut y gallai'r FfDC gefnogi datblygu polisi orau ledled Cymru, ac ym mhob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru, yn ogystal â bod o fudd i'r system gynllunio nawr ac yn y tymor hwy drwy nodi'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt.

Mae'r rhan hon yn crynhoi adroddiad ffeithiol a chryno o farnau Arup ar sail y sylfaen dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y FfDC.

Fel yr eiriolir gan Lywodraeth Cymru, mae'r ymchwil hon wedi cwmpasu Cymru gyfan ac ystod eang o feysydd polisi posibl. Fel y cyfryw, bwriedir i'r astudiaeth hon a'i hargymhellion fod yn rhai lefel uchel, a byddant yn helpu llywio datblygu polisïau'r FfDC, yn ogystal â darparu tystiolaeth a chefnogi datblygu polisi ar gyfer pob lefel, gan gynnwys cynllunio rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ledled Cymru.

Mae'n bwysig nodi, lle mae argymhellion yn ymwneud â rôl y FfDC o ran cyfeirio cynllunio rhanbarthol drwy'r CDSau, mae swyddogaeth allweddol arall i'w hystyried hefyd o ran CDLlau ar y cyd, a'r angen i ACLlau weithio gyda'i gilydd mewn ymagwedd gydweithredol (fel yr eiriolir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'r Ddeddf Gynllunio).

Fel yr eglurwyd uchod, ni ellir ystyried rhai materion cynllunio strategol nad ydynt yn rhai gwledig yma, ond yn hytrach yn yr Adroddiad SWOT Rhanbarthol yn lle hynny, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Adroddiad SWOT Gwledig hwn.

O ran meysydd thematig eraill (y rheiny nad ydynt wedi'u rhestru isod), ystyrir naill ai eu bod yn amherthnasol i'r FfDC, nad ydynt yn thema cynllunio gofodol a/neu ymdrinnir â nhw ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Gwneir argymhellion fel a ganlyn felly:

a) Beth allai'r FfDC ei nodi;

b) Pa faterion gwledig ac ardaloedd gofodol ddylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt; a

c) Sut ddylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi gwledig.

## 5.1 Beth allai'r FfDC ei nodi

Mewn rhai achosion, nid oes thema cynllunio gofodol i helpu mynd i'r afael â chryfder, gwendid, cyfle neu fygythiad a nodwyd – ac yn lle hynny, Polisi Cynllunio Cymru yw'r lle priodol i bennu polisi cynllunio cenedlaethol.

Argymhellir felly bod y FfDC yn ystyried yr un ar ddeg o ragolygon canlynol ar lefel genedlaethol ar gyfer ardaloedd gwledig:

### Gallai'r FfDC nodi…

1. **… ardaloedd twf gwledig / ymylol ym mhob un o'r tri Rhanbarth yng Nghymru, gan ymateb i'w nodweddion a'u hanghenion amrywiol;**
2. **… ardaloedd lle mae twristiaeth yn gryfder / gyfle a sicrhau bod buddsoddiad mewn seilwaith yn gyson;**
3. **… ardaloedd bras lle mae'r Gymraeg yn amlwg, er mwyn helpu hyrwyddo a gwarchod yr iaith wrth symud ymlaen, gan ystyried amrywiant mewn ymagwedd polisi ar draws y rhanbarthau;**
4. **… meysydd lle ceir gwendid, angen a chyfle i gefnogi gwelliannau mewn cysylltedd digidol mewn ardaloedd gwledig.**
5. **… cyfleoedd gofodol i gryfhau cysylltiadau rhwng prifysgolion, eu cryfderau allweddol ac ardaloedd cyflogaeth – a helpu sicrhau bod seilwaith ar gael i gefnogi sgiliau strategol a chyfleoedd cyflogaeth.**
6. **… seilwaith a blaenoriaethau trafnidiaeth cenedlaethol a rhanbarthol allweddol sy'n effeithio ar ardaloedd gwledig, yn enwedig cymryd ymagwedd strategol at ddarparu seilwaith cerbydau trydan, gan sicrhau nad yw ardaloedd gwledig yn colli allan a bod buddsoddiad yn gyfartal.**
7. **… y cyfeiriad ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan gynnwys yr angen cenedlaethol a rhanbarthol am dai newydd mewn cymunedau gwledig a thu allan i ardaloedd trefol.**
8. **… a chefnogi datblygiadau ynni presennol a newydd ochr yn ochr â chefnogi'r seilwaith cysylltiedig sy'n hanfodol i gyflawni a thwf mewn ardaloedd gwledig yn y dyfodol.**
9. **… ble mae'r diwydiant amaethyddol yn amlwg a lle mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector fel nodwedd allweddol o'r economi wledig.**
10. **…y prif ardaloedd ac asedau sydd mewn perygl o lifogydd ynghyd â chyfleoedd strategol i gefnogi uchelgeisiau'r Cynllun Morol a Chynlluniau Rheoli Traethlin ar y lefel Genedlaethol.**
11. **… lle yr eir i'r afael orau â maes polisi ar y raddfa ranbarthol, gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi ardaloedd neu safleoedd i'w datblygu / tyfu yn y dyfodol yn ogystal â phrosiectau neu fentrau strategol. Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi sectorau allweddol hefyd, ac unrhyw ofynion buddsoddi penodol. Yn arbennig, gallai CDSau ystyried cynllunio mwynau a gwastraff ar y raddfa ranbarthol.**

## 5.2 Pa faterion gwledig ac ardaloedd gofodol ddylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt

Wrth ystyried y themâu a'r ardaloedd gofodol mwy penodol, mae'n amlwg bod angen i'r FfDC gydnabod ystod eang o faterion allweddol sy'n cydberthyn gan ystyried amrywiadau rhanbarthol, hyd yn oed ar draws ardaloedd gwledig a allai rannu nodweddion tebyg.

Wrth eiriol datblygu polisi'r FfDC a fyddai'n mynd i'r afael â'r un ar ddeg o ragolygon uchod, ac yn eu cyflawni, dylai'r FfDC greu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar y raddfa genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â chyfeirio meysydd polisi ar gyfer CDSau, CDLlau ar y cyd ac ACLlau i'w blaenoriaethu fel rhan o fframwaith polisi cynllunio integredig.

Dylai'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt gael eu hystyried gyda'i gilydd, gan gydnabod y llu o gydberthynasau a amlinellwyd mewn rhannau blaenorol o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, at ddibenion cyflwyno, mae themâu polisi wedi'u hamlinellu yn eu tro isod ochr yn ochr â naratif cryno o'r hyn ddylai'r FfDC ganolbwyntio arno o fewn y maes polisi hwnnw.

At ei gilydd, angen cyfyngedig sydd am bolisïau cynllunio penodol pellach / gwledig ymhellach na'r hyn y mae'r system gynllunio yn ei gynnig yn barod.

Fodd bynnag, mae yna gyfle clir i'r FfDC helpu'r system gynllunio i barhau i gefnogi datblygiad mewn ardaloedd gwledig ac ategu / galluogi cyfleoedd ymhellach i sicrhau deilliannau cadarnhaol yn y dyfodol.

### Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar…

**a) Tai ac aneddiadau newydd**

- **Mewn ardaloedd gwledig, dylid cysylltu tai ac aneddiadau newydd gan ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy â chyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyflogaeth.**
- **Byddai diffinio ardaloedd twf gan ystyried darparu seilwaith angenrheidiol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.**

**b) Twristiaeth**

- **Dylid cysylltu asedau twristiaeth, yr amgylchedd naturiol a chyrchfannau ymwelwyr â dulliau trafnidiaeth cynaliadwy, gyda mynediad hawdd trwy gerdded, beicio, trafnidiaeth gyhoeddus ac yna'r car.**
- **Byddai nodi lleoliadau strategol ar gyfer twf, a lle mae angen seilwaith hanfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn cefnogi datblygu cynaliadwy.**

**c) Y Gymraeg**

- **Dylid hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg, gan gydnabod amrywiaeth ar draws y rhanbarthau, drwy nodi meysydd blaenoriaeth a pholisïau a fyddai'n cefnogi atal colli ac yn cynnig y cyfle ar gyfer twf yn y Gymraeg a diwylliant Cymru (e.e. cyfleusterau addysg ac ardaloedd cyflogaeth wedi'u cysylltu'n dda i helpu cadw pobl ifanc neu bobl oedran gweithio).**

## Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar…

**ch) Seilwaith digidol**

- **Dylid rhoi blaenoriaeth i seilwaith digidol mewn ardaloedd gwledig er mwyn hwyluso gweithio gartref a lleihau'r angen i deithio mewn car, yn ogystal â chefnogi cydlyniant cymunedol a mynediad i addysg ar-lein.**
- **Byddai nodi ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer seilwaith digidol, gan ystyried anghenion cenedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.**

**d) Cyflogaeth**

- **Dylid cysylltu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig yn well gyda seilwaith priodol a chreu lleoedd, gan gysylltu cymunedau a chyfleusterau addysg ag ardaloedd cyflogaeth.**
- **Byddai nodi safleoedd strategol a chyfleusterau a'u cysylltu ag ardaloedd ar gyfer twf a lle mae angen seilwaith hanfodol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.**

**dd) Trafnidiaeth**

- **Dylai seilwaith trafnidiaeth gysylltu pob grŵp o bobl, ymwelwyr a busnesau â safleoedd, cyfleusterau a gwasanaethau allweddol, wrth gymryd ymagwedd strategol at ddiogelu'r rhwydwaith i'r dyfodol gyda seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig.**
- **Byddai nodi llwybrau strategol ac ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer seilwaith newydd ac arloesol gan ystyried anghenion cenedlaethol a rhanbarthol yn cefnogi datblygu cynaliadwy.**

**e) Ynni**

- **Dylid galluogi datblygu ynni mewn modd integredig, gan ystyried cymunedau lleol a modelau / buddion sy'n berchen i'r gymuned, capasiti'r grid trydan, hygyrchedd a rheolaeth tir a rheolaeth tir yn seiliedig ar ardaloedd morol.**
- **Gallai nodi ardaloedd strategol gan ystyried rhyngwynebau gyda chymunedau a seilwaith / capasiti'r grid gefnogi datblygu cynaliadwy.**

**f) Amaethyddiaeth**

- **Dylid cefnogi'r diwydiant amaethyddol a datblygu amaethyddol gydag ymagwedd hyblyg at gynllunio a fydd yn helpu galluogi mathau a ffurfiau priodol o arallgyfeirio yn y dyfodol.**
- **Byddai nodi ardaloedd gwledig lle byddai arallgyfeirio'n briodol, a lle mae angen seilwaith hanfodol i gefnogi arallgyfeirio ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn cefnogi datblygu cynaliadwy.**

## 5.3 Sut ddylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi gwledig

Yr hyn sy'n arbennig o bwysig i ardaloedd gwledig ac ymylol ledled Cymru, yw y dylai datblygiadau tir a morol gael eu cynllunio a'u hystyried fel rhan o ymagwedd systemau cyfan at gynllunio, gan ystyried yr anghenion a'r effeithiau tebygol ar bobl, yr economi a'r amgylchedd mewn modd integredig.

Er mwyn helpu cyflawni'r deilliannau a eiriolwyd uchod, dylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi trwy ddefnyddio'r pum dull o weithio a fynnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

**Dylai'r FfDC…**

i. **Bennu gweledigaeth glir ar gyfer ardaloedd gwledig ledled Cymru yn y dyfodol;**

ii. **Atal problemau rhag digwydd neu waethygu;**

iii. **Cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r amrywiaeth a'r amrywiadau rhwng pobl Cymru;**

iv. **Annog cydweithio ar draws sectorau a phartneriaeth; ac**

v. **Ystyried natur gydberthynol themâu polisi a chefnogi ymagwedd systemau cyfan at gynllunio mewn ardaloedd gwledig.**

Bydd yr ymagwedd hon yn helpu pennu fframwaith ar gyfer datblygu polisi gwledig a gwneud penderfyniadau ledled Cymru ac ar lefelau gofodol gwahanol. Bydd y dulliau hyn o weithio yn helpu'r FfDC i adlewyrchu egwyddorion allweddol polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â chreu lleoedd a bydd yn helpu cyflawni datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

# Atodiad A

## Canlyniadau SWOT

## Cryfderau

| Cryfder | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwydnwch / prosiectau cymunedol / pobl yn ymgysylltu ag ardaloedd gwledig, a chymunedau gwledig yn ymateb ac yn rhagweithiol | Oes | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Sefydliadau cymunedol / trydydd sector |
| Asedau treftadaeth ddiwylliannol mewn ardaloedd gwledig | | Oes | Oes | Mae data'n dangos bod nifer sylweddol o asedau treftadaeth dynodedig yn rhanbarth Gogledd Cymru hefyd. | **Oes** | Gwarchod a hyrwyddo, rheoli adnoddau a chynnal a chadw. |
| Mudiad Ffermwyr Ifanc / grwpiau tebyg | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. crefft a sgiliau). |
| Ardaloedd gwledig yn bwysig i'r Gymraeg a/neu ddiwylliant Cymru | Oes | Oes | Oes | Mae data'n dangos bod y defnydd o'r Gymraeg yn fwyaf amlwg yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | **Oes** | Polisi a rhaglenni'r llywodraeth (e.e targedau a mentrau'n ymwneud â'r Gymraeg). |
| Defnydd a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol | Oes | Oes | | Mae data'n awgrymu bod yr amgylchedd naturiol yn ased cryf i'r holl ranbarthau. | **Oes** | Cynnal a chadw a rheoli. |
| Mynediad i'r amgylchedd naturiol / mannau gwyrdd | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cynnal a chadw a rheoli. |

| Cryfder | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twristiaeth | | Oes | | Mae data'n dangos bod twristiaeth yn sector pwysig hefyd yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru. | **Oes** | Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol. |
| Amgylchedd morol / ardaloedd arfordirol | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cynlluniau rheoli a chadwraeth. |
| Porthladdoedd (e.e. Caergybi) | Oes | | | Mae data'n dangos bod seilwaith porthladdoedd pwysig ym mhob rhanbarth | **Oes** | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. crefft a sgiliau). |
| Amaethyddiaeth a gefnogir gan gymunedau | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Sefydliadau cymunedol / trydydd sector, rhaglenni a strategaethau penodol i sector (e.e. crefft a sgiliau). |
| BBaChau digidol rhyngwladol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. band eang a sgiliau). |
| Seilwaith digidol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. band eang a sgiliau). |
| Amaethyddiaeth | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cyllid (e.e. UE), rheoli tir a rhaglenni penodol i'r sector. |
| Sgiliau artisan | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau). |

| Cryfder | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwydiant ffilm a theledu (cyfryngau) | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau). |
| Incwm o dwristiaeth werdd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. crefft a sgiliau). |
| Topograffeg / tirwedd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rheoli tir |
| Ynni dŵr / llanw – ased rhad ac am ddim | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi, strategaethau a thargedau'r Llywodraeth |
| Ymddeol yn gynnar fel ased i'r gymuned | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Gweithgareddau / sefydliadau cymunedol |
| Ffordd o fyw, lles / iechyd | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Cyllid rhanbarthol a lleol, rhaglenni a strategaethau (e.e. lles a mentrau iach). |
| Apêl ryngwladol | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Hyrwyddo a rhaglenni penodol i'r sector |
| Ymdeimlad o gymuned | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Mentrau a digwyddiadau rhanbarthol a lleol. |

| Cryfder | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberhonddu fel ardal twf | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Argaeledd a hyfywedd tir, grymoedd y farchnad.. |
| Prifysgolion | | Oes | | Mae data'n dangos bod seilwaith Prifysgolion yng Ngogledd a De-ddwyrain Cymru hefyd. | | Cyllid, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau). |
| Ardaloedd gwledig wedi'u cysylltu'n dda ac yn hygyrch (drwy'r rhwydwaith ffyrdd) | | | Oes | Mae data'n dangos bod Cymru wedi'i chysylltu orau gan ffyrdd. | **Oes** | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy) a gweithredu / cynnal a chadw. |
| Agosrwydd at ardaloedd poblog | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Hygyrchedd at brif ganolfannau. |

## Gwendidau

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai wedi'u hynysu oddi wrth gyfleusterau a gwasanaethau | Oes | Oes | | Mae data'n dangos mai yn Sir Gaerfyrddin ac Abertawe y bu'r cyflawni uchaf yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. targedau), argaeledd tir a diddordeb y farchnad |

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth tai ddim yn bodloni anghenion y gymuned – amcangyfrifon ddim yn gywir | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Polisi'r Llywodraeth (e.e. targedau), argaeledd tir a diddordeb / grymoedd y farchnad. |
| Diffyg mynediad i dai fforddiadwy | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Cymhellion ariannol ac ysgogwyr y farchnad. |
| Dibynnu ar ychydig o adeiladwyr tai cenedlaethol | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Cymorth cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygwyr llai (e.e. Cronfa Arloesedd Tai). |
| Canolfannau cymudwyr yn hytrach na chymunedau | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy) |
| Buddion twristiaeth yn erbyn effeithiau / capasiti | Oes | Oes | Oes | Mae data'n dangos bod twristiaeth yn sector pwysig hefyd yng Nghymru. | | Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol. |
| Goruchafiaeth / amlygrwydd twristiaeth | | Oes | | Mae data'n dangos bod twristiaeth yn sector pwysig hefyd yng Nghymru. | | Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol. |
| Twristiaeth yn canolbwyntio ar deithio mewn ceir | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy), rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. ardaloedd targed), grymoedd y farchnad, cyllid mewn moddau amgen. |
| Gorddibyniaeth ar y car | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy) a chyllid mewn moddau amgen. |

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Pellter i'r gwaith | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy), grymoedd y farchnad. |
| Cyfleoedd cyflogaeth | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Cymhellion ariannol ac ysgogwyr y farchnad, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau). |
| Cyflogaeth â thal isel | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau a hyfforddiant), grymoedd y farchnad. |
| Y Gymraeg ddim yn cael eu gwarchod yn ddigonol | Oes | | | Mae data'n dangos bod y Gymraeg yn fwyaf amlwg yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | **Oes** | Polisi a rhaglenni'r Llywodraeth (e.e. targedau'r Gymraeg a mentrau). |
| Diffyg seilwaith cerbydau trydan mewn ardaloedd gwledig | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Grymoedd y farchnad a diffyg strategaeth gan y llywodraeth ar ddarparu seilwaith. |
| Cysylltedd grid | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Prosesau'r farchnad (e.e. system yn cael ei harwain gan y galw) ac oedran seilwaith. |
| Diboblogi – yn enwedig pobl ifanc | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cyfleoedd a chymhellion i bobl ifanc). |
| Hyfywedd tir | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Argaeledd tir, rheolaeth tir ac ysgogwyr y farchnad. |

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhentu / prynu tŷ | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Tueddiadau cymdeithasol, mynediad i gyllid, ysgogwyr y farchnad. |
| Trafnidiaeth yn ddrud | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Grymoedd y farchnad, diffyg dewisiadau amgen (e.e. trafnidiaeth gyhoeddus) a mynediad at arian / cyllid. |
| Angen teithio pellter hir | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy), grymoedd y farchnad. |
| Seilwaith rheilffordd / llwybro<br>Trafnidiaeth Gyhoeddus / trafnidiaeth gynaliadwy | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy), grymoedd y farchnad, cyllid mewn moddau amgen. |
| Pasys bws yn dod i ben ar y ffin | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Partneriaethau a threfniadau cyllido. |
| Mewnfudo / prynu cartrefi yn lleol ac ail gartrefi | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth a threfniadau ariannol. |
| Allfudo - oedran gweithio a phobl ifanc | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cyfleoedd a chymhellion i bobl ifanc / pobl sy'n gweithio). |
| Seilwaith rheilffordd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** | Polisi a chyllid y Llywodraeth. |

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grymoedd y farchnad yn methu | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth, grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector. |
| Amaethyddiaeth fawr / swyddi amaethyddiaeth | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau a hyfforddiant), cymhellion ariannol. |
| Amaethyddiaeth heb fod yn llafurddwys mwyach | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth, grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. awtomeiddio). |
| Ffermydd mawr yn llyncu cymorth ariannol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Grymoedd y farchnad a threfniadau ariannu (e.e. UE). |
| Adeiladau rhestredig - yn ddrud i'w rhedeg / cynnal a chadw | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Cyllid a rheoli asedau. |
| Cofrestriadau tanciau septig – rhwydwaith preifat anhysbys (yn bennaf) | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth, grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cofnodion a gweinyddu). |
| Cynllunio yn canolbwyntio llai ar y gymuned | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth, grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cymorth hunanadeiladu). |

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Natur dymhorol – twristiaeth ac amaethyddiaeth | Oes | Oes | | Mae data'n dangos bod twristiaeth ac amaethyddiaeth yn sectorau pwysig ledled Cymru. | | Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol, grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cyflogaeth a sgiliau). |
| Economi yn canolbwyntio ar amaethyddiaeth a diwydiannau bach | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cyflogaeth a sgiliau). |
| Gofal iechyd | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Strategaethau a chynlluniau Byrddau Iechyd a modelau ariannu / cyflawni yn y dyfodol. |
| Iechyd Meddwl / Ynysu Cymdeithasol | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Strategaethau a chynlluniau Byrddau Iechyd a modelau ariannu / cyflawni yn y dyfodol. |
| Patrwm teithio i'r ysgol – effaith ar iechyd a lles | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafnidiaeth gynaliadwy), strategaethau a chynlluniau Byrddau Iechyd a chyllid / addysg yn y dyfodol. |
| Màs critigol i gynnal hyfywedd aneddiadau / gwasanaethau | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Argaeledd tir, rheolaeth tir ac ysgogwyr y farchnad. |
| Màs tir mawr | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Argaeledd tir, rheolaeth tir ac ysgogwyr y farchnad. |

| Gwendid | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC | Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Poblogaeth sy'n heneiddio | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Strategaethau a chynlluniau Byrddau Iechyd a chyllid yn y dyfodol, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. mynediad at wasanaethau). |
| Gwerthoedd tir | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Argaeledd tir, rheolaeth tir ac ysgogwyr y farchnad. |
| Prisiau tai / eiddo yn codi | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Argaeledd tir, rheolaeth tir ac ysgogwyr y farchnad. |
| Ansicrwydd ynghylch dyfodol ffermio a'r effaith ar reoli tir | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth, grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. awtomeiddio), mynediad at gyllid (e.e. UE). |
| Llygredd dŵr | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Rheoli adnoddau, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. mentrau ar gyfer dŵr glân), mynediad at gyllid. |
| Cymunedau teithwyr mewn ardaloedd gwledig | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | | Polisi'r Llywodraeth, argaeledd tir, grymoedd y farchnad, tueddiadau cymdeithasol. |

## Cyfleoedd

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddwyr / swyddogion cymuned | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Parhau i warchod cymunedau amaethyddol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cyfleoedd i adeiladwyr tai lleol / hunan-adeiladu | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Mwy a mwy o fathau o dai fforddiadwy | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gwasanaethau ac amwynderau yn gysylltiedig â lles | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Trafnidiaeth ar gyfer teithio pellter hir / parcio a theithio | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Seilwaith gwefrio cerbydau trydan | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Model cynhyrchu ynni datganoledig / cynlluniau ynni cymunedol | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Ynni adnewyddadwy ar y môr | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cydbwyso ynni adnewyddadwy yn erbyn y dirwedd | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Digwyddiad mawr i arddangos rhanbarth | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydweithrediaeth dai | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cynllunio fel galluogwr iaith | Oes | | | Mae data'n awgrymu bod y defnydd o'r Gymraeg yn fwyaf amlwg o hyd yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | |
| Angen canolbwyntio ar leoedd nid 'gwledig' | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cynllunio lleoedd i gynnal cymunedau | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Polisi ar gyfer ardaloedd Cymraeg eu hiaith | Oes | | | Mae data'n awgrymu bod y defnydd o'r Gymraeg yn fwyaf amlwg o hyd yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | **Oes** |
| Cyfle'r FfDC i fuddsoddi | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Twristiaeth werdd / cynnig newydd / arallgyfeirio'r cynnig | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Treth twristiaeth | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Swyddi gwledig y mae pobl eisiau eu gwneud | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gyrfaoedd / addysg a chymwysterau broceru | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Adolygiad o ddefnydd tir ar ôl Brexit | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys ynni | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Morgloddiau i amddiffyn seilwaith critigol | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Pysgota a defnydd yng Nghymru | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| (Dalgylchoedd) rheoli dŵr ar lefel strategol | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Rheolaeth/goruchwyliaeth o arch ffermydd a ffermydd dofednod | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Bwyd – ffynonellau a dosbarthu | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Diwydiant adeiladu | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Awtomeiddio ac uwchsgilio | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gwastraff – economi gylchol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Sgiliau / addysg mewn crefftau traddodiadol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cartrefi cynaliadwy trwy ddatblygu a ganiateir | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwadau dŵr preifat | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Defnyddio systemau draenio cynaliadwy | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Ailddefnyddio adeiladau presennol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Hyblygrwydd / cymorth ar gyfer ailddefnyddio adeiladau rhestredig | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Dylai'r fframwaith polisi ddeall bywyd gwledig a bod yn hyblyg | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| FfDC yn cyfleu cyfleoedd amgylcheddol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| BBaChau yn hyrwyddo swyddi o ansawdd uchel / fel hybiau busnes | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cefn gwlad yn erbyn yr ucheldir – ble mae'r ffocws | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Arloesi cymdeithasol ac entrepreneuriaeth | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Adnodd cymuned sydd wedi ymddeol yn gynnar (55+) | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gwella hygyrchedd digidol a 5G | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

| Cyfleoedd | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Lleoliad gwasanaethau dyfodolaidd yn sgil gofod mewn ardaloedd lleol | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gweithio o gartref / ffyrdd newydd o weithio | | Oes | Oes | Mae data'n dangos bod gweithio gartref yn fwyaf cyffredin yng Ngogledd Cymru | |
| Moderneiddio ysgolion | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Bargen twf | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Canol trefi manwerthu / masnachol | | Oes | | Mae data'n dangos bod canolfannau manwerthu a masnachol allweddol ledled Cymru. | **Oes** |
| Prifysgolion rhanbarthol / campysau lloeren | | Oes | | Mae data'n dangos bod seilwaith Prifysgolion yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru hefyd. | **Oes** |
| Cronfeydd dŵr fel atyniadau | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cydbwyso datblygu cynaliadwy (economi, cymdeithasol, diwylliant a'r amgylchedd) gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

## Bygythiadau

| Bygythiadau | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Parodrwydd cymunedau / amser | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Ardaloedd gwledig yn troi yn bentrefi cymudo | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Bygythiad i iaith a diwylliant (yn sgil twf) | Oes | Oes | Oes | Mae data'n awgrymu bod y defnydd o'r Gymraeg yn fwyaf amlwg o hyd yn rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru. | |
| Diffyg gwasanaethau / tai – allfudo | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Buddsoddi mewn trafnidiaeth | Oes | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cyfyngiadau'r rhwydwaith trydan (e.e. mwy o alw gan gerbydau trydan) a chyllido | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Prisiau tanwydd ac effaith ar y gymuned wledig | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Poblogaeth sy'n heneiddio – ynysu | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Dibyniaeth ar y car | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gwahaniaethau rhanbarthol | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |

| Bygythiadau | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgiliau | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cadw pobl / pobl ifanc yn allfudo | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Cwotâu pysgota | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Y berthynas rhwng y FfDC a rheoli tir ar ôl Brexit | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Mwy o gyfyngiadau i fynd i'r afael â nhw wrth ddatblygu mewn ardaloedd gwledig – rhwystr | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Bancio tir (tirfeddianwyr ddim yn dod â safleoedd ar gyfer datblygu ymlaen) | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Ansawdd dŵr / yr amgylchedd a dwysáu ffermio | Oes | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Toriadau mewn cyllid yn rhwystr rhag ymyrryd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Perygl llifogydd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cyfleoedd cyflogaeth a chydraddoldeb | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cadw sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |

| Bygythiadau | Gogledd Cymru | Canolbarth a De-orllewin Cymru | De-ddwyrain Cymru | Gwirio Data | Rôl gan y FfDC |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae golwg eidylaidd / gor-syml o ardaloedd gwledig yn rhwystr rhag datblygu | Oes | | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Gofal cymdeithasol i'r henoed | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Mynediad 16+ i ysgolion | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Brexit (gan gynnwys dylanwad ar borthladdoedd Iwerddon a chysylltiad ag Ewrop) | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Angen am warchodaeth – gwelir fel cyfleoedd datblygiad mewnlenwi | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Cymunedau sy'n ddisymud / yn dal yn y gorffennol | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Amaethyddiaeth a pherthynas gyda Brexit | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Her ariannu seilwaith | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Symud gwasanaethau / poblogaeth i Dde-ddwyrain Cymru | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Dyheadau ar gyfer plant mewn ardaloedd gwledig | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Dibynadwyedd rhwydweithiau digidol | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |

| **Bygythiadau** | **Gogledd Cymru** | **Canolbarth a De-orllewin Cymru** | **De-ddwyrain Cymru** | **Gwirio Data** | **Rôl gan y FfDC** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod ardaloedd annynodedig | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |
| Llygredd aer / effaith carbon yn sgil ffermio | | Oes | | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Colli ffermio defaid / effaith ar lystyfiant yr ucheldir | | Oes | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | |
| Ardaloedd gwledig yn cael eu hanghofio / gwthio i'r cyrion | | | Oes | Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill. | **Oes** |